# ARWEINIAD AR GYFER AWDURDODAU CYNLLUNIO CYHOEDDUS - YMGYNGHORI Â CHYFOETH NATURIOL CYMRU

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gorff newydd a fydd yn gwneud gwaith presennol Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) a rhywfaint o'r gwaith a wneir o fewn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Bydd CNC yn cyflawni swyddogaeth darparu cyngor technegol flaenorol CCGC, AAC a CCC, er mwyn sicrhau bod gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yr wybodaeth orau sydd ar gael i gefnogi eu penderfyniadau cynllunio.

Un o'r rhesymau dros greu'r corff newydd yw hwyluso ein gwasanaethau a gwneud pethau'n rhwyddach ar gyfer ein cwsmeriaid, ein cyflenwyr a'n partneriaid. Yn y dyfodol, ni fydd ond rhaid i chi gysylltu ag un corff: ac rydym yn hyderus y bydd hynny'n haws, yn symlach, ac yn arbed amser i chi.

**Ceir yma arweiniad ynghylch pryd y dylid ymgynghori â CNC parthed:**

- **ymgynghoridadau cynllunio (Atodiad 1)**
- **dogfennau strategol (Atodiad 2)**

Sylwer ar y canlynol:

- ni flaenoriaethir y meini prawf (h.y., os cyrhaeddir unrhyw un, dylid ymgynghori â CNC), ond fe'u cydgasglwyd er mwyn cyfleuster;
- mae'r rhestrau'n cyfuno meini prawf presennol CCGC ac AAC, felly ni ddylai hyd arwain at gynyddu nifer yr ymgynghoriadau, ac yn llawer i achos, bydd ymgynghori ag un corff yn lleihau'r gwaith ac yn hwyluso trefnau;
- gallai rhagor nag un maen prawf fod yn berthnasol, felly edrychwch ar bob adran;

- ple rhoddir enghreifftiau, nid yw’r cyfryw’n hollgynhwysfawr;

Er cyfleuster, dangosir y meini prawf ar ffurf “rhestr dicio”. Gellir ei defnyddio i hwyluso’r broses benderfynu, a’i hatodi, os dymunwch, wrth ymgynghoriadau a yrrir at CNC er mwyn amlygu paham yr ydys yn ymgynghori.

Yn ychwanegol, ceir yn Atodiad 3, ‘arweiniad parod’ ar gyfer cyfeirio rhwydd: ond dylid ei ddefnyddio ynghyd â’r wybodaeth fanylach yng nghorff y prif Arweiniad.

Y mae’r arweiniad hwn yn ddogfen “fyw” a allai newid a datblygu gydag amser. Dylid ceisio sicrhau defnyddio’r fersiwn ddiweddaraf un.

A dweud yn eglur: ni ddymuna CNC i chi ymgynghori ag ef ynghylch ceisiadau nad ydynt yn cyffwrdd ag unrhyw un o feini prawf y rhestr wirio. Atgoffwn ni chi, fodd bynnag, o’ch dyletswyddau ehangach: tan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ynglŷn â bioamrywiaeth, er enghraifft.

Atodiad 1 – pryd mae ymgynghori â CNC parthed ceisiadau cynllunio

| **Math / lleoliad datblygiad neu weithgaredd** | **Beth olygwn ni wrth hynny?** | **Tic os yn berthnasol** |
|---|---|---|
| Safle mwy nag 1 Hectar | *Unrhyw ddatblygiad ar dir a'i arwynebedd yn 1 Hectar (10,000 $m^2$) neu ragor.* | |
| Yn golygu trin neu waredu carthion neu wastraff masnachol | *Datblygu ar gyfer cadw, trin neu waredu carthion, gwastraff masnachol, slyri neu slwtsh (**ac eithrio** adeiladu gweithfeydd trin carthion preifat unigol, tanciau carthion a phyllau carthion lle bo llai na 10 o bobl yn preswylio'n arferol, neu lle bo'r system yn gollwng i suddfan.)* | |
| Yn ymwneud ag unrhyw safleoedd COMAH, neu'n agos atynt | *Safleoedd COMAH yw'r rhai sy'n destun rheoliadau Rheoli Perygl Damwain Sylweddol.*<br>*Datblygu sefydliadau newydd, neu addasu rhai presennol, a allai fod ag effaith fawr ar beryglon damwain sylweddol, neu o fewn 250m,lle byddai'r lleoli neu'r datblygu yn cynyddu perygl neu ganlyniadau damwain sylweddol.* | |
| O fewn 250m i safle tirlenwi | *Datblygu o fewn 250m i dir a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd ar gyfer gollwng gwastraff neu sbwriel (ac eithrio safleoedd tirlenwi hanesyddol, onid yw safle'r cais ar ben safle tirlenwi.)* | |
| Safleoedd gwastraff | *Datblygu parthed defnyddio tir ar gyfer dyddodi, storio, trosglwyddo, prosesu a/neu trîn gwastraff.* | |
| Mynwentydd | *Datblygu parthed defnyddio tir yn fynwent, gan gynnwys estyniadau; amlosgfeydd a chladdu anifeiliaid.* | |
| Cyfleusterau cadw anifeiliaid dwys (gan gynnwys ffermydd pysgod) | *Datblygu cyfleusterau cadw anifeiliaid dwys (ar gyfer moch, dofednod, gwartheg, gwalau cathod neu gytiau cŵn.)*<br>*Datblygu at ddiben ffermydd pysgod a physgodfeydd.* | |
| Gweithfeydd mwynau/mwyngloddio | *Datblygu sy'n cynnwys gweithfeydd mwynau a mwyngloddio, gan gynnwys arloesi, cloddio a chynlluniau adfer.* | |
| Olewau mwynol at ddefnyddiau arall na rhai'r cartref | *Datblygu ar gyfer tynnu, puro neu storio olewau mwynol nad ydynt at ddefnyddiau'r cartref, a'u his-gynnyrch neu gynhyrchion.* | |
| Cynlluniau cynhyrchu ynni | *Datblygu cynlluniau cynhyrchu ynni o bob math, gan gynnwys, ond nid yn unig, ynni dŵr, tyrbinau gwynt morol (wrth y lan ac ymhell oddi wrthi), tynnu nwy anghonfensiynol, gweithfeydd bio-mas / ynni o blanhigion gwastraff.* | |

Atodiad 1 – pryd mae ymgynghori â CNC parthed ceisiadau cynllunio

| **Effeithiau yn ymwneud â dŵr** | **Beth olygwn ni wrth hynny?** | **Tic os yn berthnasol** |
|---|---|---|
| Datblygu sy'n effeithio ar ddyfrffos | *Cynlluniau datblygu sy'n debyg o effeithio ar ddyfrffos, gan gynnwys:*<br>• *gwaith neu weithrediadau ar wely neu lan afon neu nant, gan gynnwys gollwng i ddyfrffos;*<br>• *datblygu ar neu o dan unrhyw arglawdd llifogydd, amddiffynfa forol, neu adeilad rheoli llif arall; neu*<br>• *cau am neu reoli llif unrhyw afon neu nant, gan gynnwys pibellu; neu*<br>• *datblygu o fewn 20m i Brif Afon.*<br><br>*Gellir canfod prif afonydd trwy wefan Asiantaeth yr Amgylchedd:*<br>*Yn y cartref a hamdden > Llifogydd >Ydw i'n wynebu perygl o lifogydd? > Map Lifogydd (ar raddfa 1:75,000 neu'n agosach.)* | |
| Datblygu o fewn parth llifogydd | *Datblygu ym mharthau llifogydd C1 a C2 yn ôl diffiniad y Mapiau Cyngor Datblygu a/neu fapiau parth llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd (Parth 2 a 3) (ac eithrio estyniadau hyd at 250m$^2$)*<br>*Mae'r Mapiau Cyngor Datblygu ar gael trwy wefan Llywodraeth Cymru.* | |
| Unrhyw waith neu ddatblygu o fewn PDFf, PPN neu PDD | *Datblygu a olyga gloddio a/neu waredu dŵr wyneb neu ddŵr aflan arall na thrwy brif garthffos, o fewn Parthau Diogelu Ffynhonnell, Parthau Perygl Nitradau neu Barthau Diogelu Dŵr.* | |
| Tir halog a allai lygru dyfroedd rheoledig | *Datblygu tir a ddichon fod wedi'i halogi, a allai lygru dyfroedd rheoledig.*<br>*(Diffinnir "dyfroedd rheoledig" yn afonydd, nentydd, aberoedd, camlesi, llynnoedd, pyllau, ffosydd dŵr daear a dyfroedd glannau'r môr.)* | |

Atodiad 1 – pryd mae ymgynghori â CNC parthed ceisiadau cynllunio

| **A ellid effeithio ar ardal neu rywogaeth warchodedig?** | **Beth olygwn ni wrth hynny?** | **Tic os yn berthnasol** |
|---|---|---|
| Datblygu o fewn safle dynodedig, neu a allai effeithio ar un, sef safle AGA, ACA, RAMSAR neu SoDdGA | *Cynlluniau datblygu, o fewn, neu a allent effeithio ar:*<br>• *Ardal Cadwraeth Arbennig – dynodedig, sydd yn destun cais, neu arfaethedig;*<br>• *Ardal Gwarchodaeth Arbennig – dosbarthedig ac arfaethedig;*<br>• *Safle(oedd) RAMSAR – dynodedig ac arfaethedig;*<br>• *Safle(oedd) o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a gymeradwywyd gan Gyfarwyddwyr CCGC neu Gyfarwyddwyr CNC ar gyfer eu dynodi'n SoDdGA.* | |
| Datblygu a allai effeithio ar safleoedd â chynefinoedd neu rywogaethau pwysig eraill, neu a all fod a swyddogaeth gefnogol bwysig | *Datblygiadau a ddichon effeithio safleoedd sydd ymhlith safleoedd gorau Cymru yn rhinwedd un neu ragor o nodweddion, er nas dynodwyd yn SoDdGA.*<br><br>*Datblygiadau a allent arwain at golli nodweddion cynefinoedd Atodiad Blaenoriaeth 1 Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE nad ydynt yn nodweddion ACA neu SoDdGA, a effeithiai'n ddifrifol ar swyddogaeth hanfodol yng nghynnal ymfudiad, gwasgariad neu gyfnewidiad genetig rhywogaethau sy'n ffurfio'r cynefin hwnnw, neu sy'n gysylltiedig ag ef.* | |
| O fewn, neu a allai effeithio ar, GNG, GNF, AFW neu barth cadwraeth morol gwarchodedig iawn | *Datblygu proposals within or that may affect one or more of the following:*<br>• *Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG);*<br>• *Gwarchodfa Natur Forol (GNF);*<br>• *Ardal Forol Warchodedig (AFW);*<br>• *Parth Cadwraeth Morol Gwarchodedig Iawn.* | |
| Datblygu a allai effeithio ar rywogaethau gwarchodedig | *Cynlluniau datblygu a allent effeithio ar Rywogaethau Gwarchodedig Ewropeaidd ynteu rhywogaethau gwarchodaeth genedlaethol lwyr.* | |

Atodiad 1 – pryd mae ymgynghori â CNC parthed ceisiadau cynllunio

| **A ellid effeithio ar ardal neu rywogaeth warchodedig? (parhad)** | **Beth olygwn ni wrth hynny?** | **Tic os yn berthnasol** |
|---|---|---|
| Datblygu sy'n effeithio ar dirweddau neu forweddau pwysig, ynteu ar eu pennau'u hunain ynteu'n gynyddol ag eraill | *Cynlluniau datblygu sy'n debyg o effeithio'n sylweddol ar Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), ynteu ar eu pennau'u hunain ynteu'n gynyddol â datblygiadau eraill.*<br>*Cynlluniau sy'n debyg o effeithio ar dirweddau a restrir yn yng Nghofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Cymru (CADW/CCGC), Safleoedd Treftadaeth y Byd, neu lle bernir fod sensitifrwydd forwedd i'r math o ddatblygu yn gymhedrol/fawr neu'n fawr.*<br>*Datblygiadau sy'n debyg o effeithio'n sylweddol ar dirweddau sydd, yn ôl LANDMAP, yn rhai eithriadol.* | |
| Datblygiadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol | *Datblygiadau ar gyfer pa rai CNC yw'r unig ffynhonnell cyngor cydrannol ynghylch effeithiau sylweddol dichonol ar gynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn nodweddion safleoedd dynodedig, a nas gwarchodir yn neilltuol. (Datblygiadau parthed yr amgylchedd morol a allent effeithio ar rywogaethau Adran 42 CGB, lle CNC yw'r unig gorff ymgynghorol ar gyfer y fath rywogaethau, e.e..)* | |
| **Hanes achos blaenorol** | **Beth olygwn ni wrth hynny?** | **Tic os yn berthnasol** |
| Mae a wnelo'r cais ag amod y bu inni (CNC) gynghori'n flaenorol y dylid ei osod | *Cyflawni neu newid amod y mae CNC neu'i gorff rhagflaenol (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru neu'r Comisiwn Coedwigaeth) wedi cynghori y dylid ei osod ar y caniatâd cynllunio.* | |
| Apêl parthed cylch dyletswydd CNC | *Apeliadau cynllunio parthed gwrthwynebiad neu amod argymelledig gan CAN neu ei gyrff rhagflaenol (CCGC, AAC, CCC).*<br>*Hefyd apeliadau cynllunio parthed amhenderfynu / gwrthod mewn achosion lle nad ymgynghorwyd yn flaenorol â CNC, ond yr ymgynghorir ag ef gan yr Arolygaeth Gynllunio (PINS) ar adeg apêl oherwydd materion o fewn ei gylch dyletswydd y gall y dymunai CNC wneud sylwadau yn eu cylch.* | |

Atodiad 1 – pryd mae ymgynghori â CNC parthed ceisiadau cynllunio

| **Polisi a materion eraill** | **Beth olygwn ni wrth hynny?** | **Tic os yn berthnasol** |
|---|---|---|
| Datblygu y mae arno angen AEA | *Cynlluniau y mae arnynt angen Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA), gan gynnwys y cyfnod ymchwilio, a cheisiadau ag iddynt Ddatganiad Amgylcheddol (DA).* | |
| Datblygiad croes i Bolisi Cenedlaethol, PDLl neu PDT | *Datblygiadau sy'n groes i Bolisi Cenedlaethol, y Cynllun datblygu (PDLl/PDT), neu gynseiliau pwysig.* | |
| Datblygu a allai effeithio ar gyflawni cynlluniau neu raglenni blaenoriaethol CNC | *Datblygiadau sy'n cyfrannu at (neu a atalient gyflawni)*<br>• *cynlluniau neu raglenni blaenoriaethol CNC (Llwybrau Cenedlaethol, e.e.);*<br>• *amcanion polisi, gan gynnwys pwysigrwydd unrhyw gynsail y gallai'r achos ei osod (cyfreithiol, polisi, neu fater o egwyddor).* | |
| Datblygiadau o ddiddordeb cyhoeddus mawr (parthed cylch dyletswydd CNC) | *Datblygiadau parthed pa rai  y byddai'n ddoeth i CNC esbonio ei safbwynt a chynghori yng ngoleuni diddordeb cyhoeddus mawr tebygol.* | |
| Datblygiadau sy'n gyfle i brofi'r drefn benderfynu neu a allent osod cynsail pwysig. | *Datblygiadau sy'n groes i bolisi, a allent osod cynsail pwysig (cyfreithiol, polisi, neu fater o egwyddor), neu a allent newid neu ddylanwadu ar agweddau polisi (peidio â gosod ffermydd gwynt mewn Ardaloedd Chwilio Strategol penodol, e.e.).*<br>*Datblygiadau sy'n ceisio profi cadernid a chysondeb polisi'r Llywodraeth ddatganoledig, a chysondeb penderfyniadau llywodraethau canolog a datganoledig (sef AYNH, Llywodraeth Cymru).* | |

Atodiad 2 – pryd mae ymgynghori â CNC parthed dogfennau strategol

| **Yn ychwanegol, dylid ymgynghori â CNC ynghylch unrhyw Ymgynghoriadau Cynllunio Strategol, gan gynnwys (ond nid yn unig):** | **Tic os yn berthnasol** |
|---|---|
| **Cynlluniau Datblygu Lleol** (CDLl) gan gynnwys (ond nid yn unig):<br>○ Amserlen paratoi cynlluniau<br>○ Dewisiadau cynadneuol<br>○ Cynlluniau adneuo CDLl<br>○ Safleoedd tai a datblygu arfaethedig eraill CDLl<br>○ Ymgynghoriadau cyfarpar sgrinio<br>○ Newidiadau canolbwyntiedig a pherthnasol<br>○ Cwestiynau a thystiolaeth archwilwyr ar gyfer clywed sesiynnau yn ystod archwilio'r CDLl | |
| **Arweiniad Cynllunio Ategol** (ACA), prif gynlluniau a Chynlluniau Gweithredu Ardal | |
| **Dogfennau Tystiolaeth Amgylcheddol** gan gynnwys (ond nid yn unig):<br>○ Asesiadau Canlyniadau Llifogydd Strategol<br>○ Astudiaethau Seilwaith Gwyrdd<br>○ Astudiaethau cylchred ddŵr | |
| **Asesiad Amgylcheddol Strategol** (AAS) / **Asesiad Cynaliadwyedd** (AC) CDLl/ACA, gan gynnwys sgrinio, ymchwilio, adroddiad drafft a therfynol a datganiad ôl-fabwysiadol. | |
| **Asesiad Rheoliadau Cynefin** (ARhC) CDLl/ACA, gan gynnwys sgrinio/ymchwilio, adroddiad drafft a therfynol a datganiad ôl-fabwysiadol. | |
| Dyraniadau cynllunio strategol eraill gan gynnwys (ond nid yn unig) dogfennau tystiolaeth amgylcheddol a chyfarwyddiadau dylunio. | |

Atodiad 3 – Arweiniad parod

***ARWEINIAD PAROD – PRYD MAE YMGYNGHORI Â CNC***
***(i'w ddefnyddio ar y cyd â'r wybodaeth fanylach yn yr arweiniad)***

Cysylltwch â CNC os yw'r datblygu:

- Ar safle rhagor nag 1 Hectar
- O fewn 250m i safle tirlenwi
- Ynglŷn â cadw neu trin gwastraff
- Yn golygu trin neu waredu carthion neu wastraff masnachol
- Ynglŷn â, neu'n agos at, unrhyw safle COMAH
- Ynglŷn â mynwent neu amlosgfa
- Ynglŷn a chyfleusterau cadw anifeiliaid dwys (gan gynnwys ffermydd pysgod)
- Ynglŷn â mwynau a gwaith cloddio
- Cynhyrchu ynni
- Ynglŷn ag olewau mwynol nad ydynt i'r cartref

Ymgynghorwch â CNC ynghylch unrhyw ddogfennau strategol parthed cynllunio

Ymgynghorwch â CNC os yw'r datblygu

- O fewn safle dynodedig (AGA, ACA, RAMSAR neu SoDdGA), neu y gallai effeithio arno
- Os gallai effeithio ar safle pwysig arall
- O fewn, neu a allai effeithio ar, GNG, GNF, AFW neu barth cadwraeth morol gwarchodedig iawn
- Os gallai effeithio ar rywogaeth gwarchodedig
- Yn effeithio ar dirweddau neu forweddau pwysig, ynteu ar eu pennau'u hunain ynteu'n gynyddol ag eraill
- Yn effeithio ar yr amgylchedd morol

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ymgynghorwch â CNC ynghylch unrhyw ddatblygu:

- Sydd o fewn parth llifogydd
- Sy'n effeithio ar ddyfrffos
- Â gwaith neu ollyngiad o fewn PDFf, PPN neu PDD
- Ar dir halog a allai lygru dyfroedd

Ymgynghorwch â CNC os:

- Oes a wnelo cais ag amod y bu inni eisoes gynghori y dylid ei osod
- Neu ag apêl parthed cylch dyletswydd CNC

Ymgynghorwch â CNC os:

- Oes angen AEA neu DE ar y datblygu
- Os yw'n groes i Bolisi Cenedlaethol neu PDLl/PDT
- Os yw'n effeithio ar gyflawni cynlluniau neu raglenni blaenoriaethol CNC
- Os oes diddordeb cyhoeddus mawr (parthed cylch dyletswydd CNC)
- Os byddai'r datblygiad/penderfyniad yn gosod cynsail